Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Swyddog Cyfieithu
# Pecyn Recriwtio

## Dyddiad Cau: 8 Mehefin 2026

# Cynnwys

Cyflwyniad

**Ynglŷn â'r Ombwdsmon**

Gwerthoedd yr OGCC

**Ynglŷn â'r rôl**

Swydd Ddisgrifiad

Pwrpas y rôl

Cyfrifoldebau

Gofynion

**Sut i Ymgeisio**

Ymgeisio am y rôl

Canllawiau ynglŷn â sut i ymgeisio

Cyflwyno Eich Ffurflen Gais

**Y Broses Recriwtio a Dethol**

**Diogelu Data**

Hysbysiad Preifatrwydd

# Cyflwyniad

Diolch i chi am ddangos diddordeb yn rôl Swyddog Cyfieithu yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Nod ein proses recriwtio yw denu ymgeiswyr o safon ac, yn anad dim, recriwtio'r “ffit” gorau ar gyfer y rôl a'r Sefydliad.

Mae'r Pecyn Recriwtio hwn yn cynnwys gwybodaeth am Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y broses recriwtio a sut i ymgeisio am y swydd.

Ewch i'n gwefan www.ombwdsmon.cymru am ragor o wybodaeth am y swyddfa.

# Ynglŷn â'r Ombwdsmon

# Ynglŷn â’r Ombwdsmon

Mae gan yr Ombwdsmon dair rôl benodol. Y cyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion am gynghorwyr yn torri'r cod ymddygiad; y trydydd yw ysgogi gwelliant systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Mae’r Ombwdsmon yn Gorfforaeth Undyn ac yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y swyddfa. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y Llywodraeth ac mae’r gwasanaeth a ddarperir yn rhad ac am ddim. Mae’r Ombwdsmon wedi nodi ei huchelgeisiau yn ei Chynllun Strategol 2023 - 2026 sydd i’w weld ar ein gwefan. Isod ceir rhagor o wybodaeth am waith y Swyddfa.

### Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion am gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, lle mae'r cyfrifoldeb am eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Hefyd, gall yr Ombwdsmon gychwyn ymchwiliadau ar ei liwt ei hun pan fydd o’r farn bod amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig sy’n achosi anghyfiawnder personol.

### Cwynion y Cod Ymddygiad

O dan ddarpariaethau Rhan III y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ynghyd â Gorchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, mae’r Ombwdsmon yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod.

### Ysgogi Gwelliant Systemig/Safonau Ymddygiad

O dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, gall yr Ombwdsmon bennu safonau ar gyfer ymdrin â chwynion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, cyhoeddi data ar gwynion a chefnogi ymdriniaeth dda â chwynion drwy gynnig hyfforddiant.

OUR VALUES




# Gwerthoedd yr OGCC

Mae OGCC yn credu bod diwylliant yn effeithio ar bob agwedd ar y ffordd rydym yn gweithredu a sut mae gwaith yn cael ei wneud. Rydym yn ymddiried yn ymdeimlad y gweithwyr o bwrpas, yn ogystal â'r set o werthoedd sy'n llywio ein diwylliant. Nod ein gwerthoedd yw darparu templed ar gyfer yr ymddygiadau a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan y rhai sy'n gweithio i ni. Maent yn amlinellu'r ffordd rydym yn gwneud pethau yma.

**C** **Cyflawni:**
Gwneud ein gorau glas

**U** **Undod:**
Parchu ein gilydd a gweithio ar y cyd er mwyn i'r sefydliad lwyddo

**M** **Meddwl yn gadarnhaol:**
Dangos brwdfrydedd a balchder o ran pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud

**C** **Cefnogaeth:**
Bod yn gefn i'n gilydd a gwerthfawrogi ein hamrywiaeth

**P** **Perchenogaeth:**
Derbyn cyfrifoldeb am bopeth a wnawn

**P** **Parodrwydd:**
Bod yn awyddus, yn hyblyg ac yn rhagweithiol

# Cyflogwr Chwarae Teg

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio ei gwasanaeth, a'r rhai sy'n cael eu cyflogi ganddi, yn cael eu trin yn gyfartal. Yn ogystal, nid yw'r Ombwdsmon yn gwahaniaethu drwy amryfusedd yn erbyn aelodau o unrhyw grŵp penodol o gymdeithas.

Rydym yn ymroddedig i'r cynllun Hyderus o ran Anabledd. Drwy hynny, rydym wedi cofrestru i'r canlynol:

- recriwtio cynhwysol a hygyrch
- cyfathrebu swyddi gwag
- cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n cwrdd â'r PS
- cynnig addasiadau rhesymol
- cefnogi gweithwyr presennol

Rydym wedi cyflawni achrediad Arian Cyflogwr Chwarae Teg o dan gynllun blaenorol Cyflogwr Chwarae Teg.

# Buddion

- Cyflog cystadleuol
- Cynllun Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil
- Cynllun amser flexi
- Aelodaeth Gampfa am bris gostyngol
- *Health Cash Plan*
- Cynlluniau prynu am bris gostyngol
- 32 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc - pro rata ar gyfer gweithwyr rhan amser
- Gweithio Hybrid a chyfleusterau ar y safle ardderchog ac offer ar gyfer gweithio o gartref
- Cwnsela allanol rhad ac am ddim a chefnogaeth iechyd galwedigaeth

# Ynglŷn â’r rôl

# Swydd Ddisgrifiad

| | Teitl Swydd |
|---|---|
| **Rôl:** | Swyddog Cyfieithu |
| **Cyflog:** | £32,064 - £33,699 y flwyddyn (pro rata) Gradd OGCC SUP11 – SUP13 (Gwobr tâl yn aros) |
| | (Cynnydd cynyddrannol blynyddol) |
| **Yn gyfrifol i:** | Rheolwr Cymorth Busnes |
| **Math o Gontract:** | Parhaol - 21 awr yr wythnos |
| **Gwyliau blynyddol:** | 32 diwrnod y flwyddyn (pro rata) ynghyd â gwyliau cyhoeddus |
| **Cynllun Pensiwn:** | Cynllun Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil |
| **Lleoliad:** | Gweithio Hybrid (Pen-y-bont ar Ogwr/Cartref) neu Gweithio o Bell |
| **Gofynion y Gymraeg:** | Y Gymraeg yn Hanfodol |

# Diben y rôl

Mae'r Swyddog Cyfieithu yn darparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg proffesiynol, effeithlon a chynaliadwy ar gyfer yr Ombwdsmon a swyddfa'r Ombwdsmon, gan ganolbwyntio ar waith o ddydd i ddydd, gwaith sy'n sensitif o ran amser ac sy'n flaenoriaeth, sicrhau ansawdd, a defnyddio cof cyfieithu ac offer iaith yn effeithiol i gefnogi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

# Cyfrifoldebau

- Drafftio a darparu cyfieithiadau ysgrifenedig o ansawdd uchel rhwng y Gymraeg a'r Saesneg (ac i'r gwrthwyneb) ar gyfer gohebiaeth sy'n sensitif o ran amser, cyfathrebu a chynnwys sy'n wynebu'r cyhoedd, gan gynnwys deunydd a ddaw gan achwynwyr a chyrff cyhoeddus, yn unol â gofynion statudol ac amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Prawfddarllen cynnwys Cymraeg a Saesneg i sicrhau cywirdeb ieithyddol, eglurder, tôn, Cymraeg / Saesneg Clir a chysondeb ag arddull tŷ'r sefydliad.
- Sicrhau ansawdd cyfieithiadau a gomisiynir yn allanol er mwyn sicrhau'r derminoleg a'r arddull gywir a cydymffurfiaeth â safonau'r sefydliad.
- Cynnal, diweddaru a defnyddio terminoleg Gymraeg/Saesneg y cytunwyd arni, gan gynnwys rheoli geirfaoedd ac adnoddau cyfeirio.
- Rheoli a gwneud defnydd effeithiol o system cof cyfieithu'r sefydliad, gan gynnwys ôl-olygu ac adolygu cyfieithiadau a gynhyrchir gan beiriannau i safonau proffesiynol.

# Cyfrifoldebau (parhau)

- Cefnogi llif gwaith cyfieithu effeithlon drwy reoli ceisiadau cyfieithu a gyflwynir drwy'r Hwb a chynghori ar derfynau amser realistig ar gyfer gwaith nad yw'n frys.
- Gweithio gyda'r tîm Cyfathrebu i sicrhau bod y Wefan Gymraeg a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol yn gywir, yn amserol ac yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Rhoi arweiniad i'r tîm ehangach ar ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn effeithiol wrth gynhyrchu dogfennau yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- Arwain trefniadau gweinyddol ar gyfer comisiynu a rheoli gwasanaethau cyfieithu allanol.
- Darparu cymorth cyfieithu mewn cyfarfodydd a digwyddiadau ar-lein.
- Cefnogi cynlluniau i feithrin hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gan gynnwys cyfrannu at hyfforddiant staff a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.
- Monitro datblygiadau mewn arferion cyfieithu, terminoleg a chanllawiau a gyhoeddir gan gyrff perthnasol yng Nghymru a chynghori ar y goblygiadau i'r sefydliad.

# Cyfrifoldebau (parhau)

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol a digwyddiadau Cymraeg fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill, sy'n gymesur â'r raddfa, y sgiliau a'r profiad y disgwylir i ddeiliad y swydd feddu arnynt, y gall rheolwyr eu dyrannu o bryd i'w gilydd.
- Dilyn holl bolisïau a gweithdrefnau OGCC fel y'u nodwyd yn y dogfennau polisi, y pecynnau cynefino, yr Hwb ac ati.
- Cyfrannu at ymrwymiad OGCC i arferion da o ran delio â gwybodaeth drwy gydymffurfio â Chyfraith Diogelu Data a pholisïau a gweithdrefnau OGCC, yn enwedig o ran unrhyw ddata personol neu ddeunydd cyfrinachol.
- Cymryd gofal rhesymol o'ch llesiant a'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac o lesiant ac iechyd a diogelwch pobl eraill y gallai'r camau hynny effeithio arnynt.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill, sy'n gymesur â'r sgiliau a'r profiad a ddisgwylir ar gyfer y swydd hon ac y gall y rheolwr llinell perthnasol eu dyrannu o bryd i'w gilydd.

# Cyfrifoldebau (parhau)

- Gweithredu ar draws holl awdurdodaeth bresennol yr Ombwdsmon neu ei awdurdodaeth yn y dyfodol ac ym mha bynnag dîm gweithredu sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth.
- Gweithredu yn unol â Gwerthoedd yr Ombwdsmon bob amser:

| | |
|---|---|
| **Cyflawni:** | Gwneud ein gorau glas |
| **Undod:** | Parchu ein gilydd a gweithio ar y cyd er mwyn i'r sefydliad lwyddo |
| **Meddwl yn gadarnhaol:** | Dangos brwdfrydedd a balchder o ran pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud |
| **Cefnogaeth:** | Bod yn gefn i'n gilydd a gwerthfawrogi ein hamrywiaeth |
| **Perchenogaeth:** | Derbyn cyfrifoldeb am bopeth a wnawn |
| **Parodrwydd:** | Bod yn awyddus, yn hyblyg ac yn rhagweithiol |

# Gofynion Manyleb Person

## Meini Prawf hanfodol

- Cymhwyster cydnabyddedig mewn cyfieithu neu'r Gymraeg (lefel gradd neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol), neu brofiad proffesiynol amlwg cyfatebol.
- Profiad amlwg o gyfieithu a/neu ôl-olygu Cymraeg/Saesneg i safon uchel.
- Rhugldder yn y Gymraeg ar lafar a sgiliau ysgrifenedig rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Sgiliau prawf ddarllen a sicrhau ansawdd rhagorol.
- Gallu cwblhau cyfieithiadau'n gywir ac yn effeithiol, o fewn amserlenni tynn.
- Disgresiwn llwyr a dealltwriaeth o'r angen am gyfrinachedd.

# Gofynion Manyleb Person (Parhau)

## Meini Prawf hanfodol

- Sgiliau TG da, gan gynnwys profiad o offer cyfieithu.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, a gallu gweithio’n annibynnol ac ar y cyd.
- Profiad o ddarparu gwasanaeth sy’n deg ac yn gyfartal i bawb, waeth beth yw eu rhywedd, eu statws priodasol, eu hethnigrwydd, eu henwad crefyddol, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hanabledd neu eu hoed neu unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.

# Gofynion Manyleb Person

## Meini Prawf dymunol

- Gwybodaeth a dealltwriaeth eang o awdurdodaeth yr Ombwdsmon.
- Gallu cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
- Profiad o weithio / gweithredu mewn amgylchedd sy’n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Trwydded yrru lawn lân a cherbyd at eich defnydd, wedi'i yswirio ar gyfer defnydd busnes.
- Profiad blaenorol yn y sector cyhoeddus.
- Aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru (cymdeithas cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymru) neu barodrwydd i weithio at aelodaeth.

# Amodau Arbennig

## Cyfyngiadau ar weithgarwch gwleidyddol a pholisi dim ysmygu

## Meini Prawf dymunol

- Mae'n hanfodol bod y sawl sy'n gweithio i'r Ombwdsmon yn ddiduedd a'u bod yn cael eu gweld i fod yn ddiduedd. Felly, ni chaniateir i staff sy'n gweithio i'r Ombwdsmon gymryd rhan mewn gweithgaredd gwleidyddol ac mae'n ofynnol iddynt osgoi gwneud sylwadau gwleidyddol cyhoeddus, er enghraifft ar gyfryngau cymdeithasol. Cyn eu penodi, gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus ddatgelu manylion eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.
- Rydym yn gweithredu polisi dim ysmygu

# Sut i Ymgeisio

# Ymgeisio am y rôl

I ymgeisio, cwblhewch a dychwelwch y Ffurflen Gais.  Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu yn Saesneg.  Ni fydd cais Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol. O fewn y ffurflen gais gofynnir i chi:

- Roi eich manylion personol.  Cwblhewch yr adran hon yn gywir [gan fod y wybodaeth a rowch yma yn ein helpu i gydymffurfio â Deddf Lloches a Mewnfudo 1996].

- Rhoi manylion am eich hanes cyflogaeth a'ch profiad am y 10 mlynedd diwethaf.  Wrth gwblhau'r adran hon, sicrhewch eich bod yn cynnwys manylion eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, hyd yn oed os ydych yn teimlo nad yw'r swydd yn berthnasol i'ch cais presennol.

- Nodi eich sgiliau, cyflawniadau addysgol ac unrhyw brofiad (gwirfoddol neu gyflogedig) y credwch fydd yn eich helpu i gyfrannu yn y swydd hon at amcanion yr Ombwdsmon.  Sicrhau nad ydych yn mynd dros y cyfrif geiriau penodedig os a ble maent yn berthnasol.

- Darparu manylion cymwysterau a enillwyd trwy addysg a hyfforddiant ochr yn ochr ag unrhyw aelodaeth broffesiynol sydd gennych (os yn berthnasol).

- Rhoi manylion dau berson y gellir cysylltu â nhw i weithredu fel canolwyr proffesiynol/personol.  Os ydych yn gyflogedig ar hyn o bryd, dylech ddewis un geirda o'ch cyflogaeth bresennol.  Byddwn ond yn gwneud cais am eirdaon unwaith y mae cynnig wedi'i wneud.

- Cwblhau'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb.  Caiff y ffurflen hon ei thrin yn gyfrinachol ac ar wahân i'ch ffurflen gais ac ni chaiff ei defnyddio i asesu eich addasrwydd ar gyfer y swydd.   Caiff y ffurflen hon ei defnyddio at ddibenion monitro cydraddoldeb yn unig.

Ni allwn ystyried ceisiadau hwyr neu rhai anghyflawn. Sicrhewch eich bod yn darparu digon o enghreifftiau yn erbyn y meini prawf i ddangos eich cymhwysedd e.e. nid yw dweud bod gennych brofiad mewn maes yn ddigon, mae angen i chi gynnwys yr hyn yr ydych wedi'i wneud mewn gwirionedd.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5 yh Dydd Iau Chwefror 2026.** Ni ellir ystyried ceisiadau sy'n cael eu derbyn ar ôl yr amser a'r dyddiad hwnnw, am ba bynnag reswm.

Rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag yn gynnar os daw digon o geisiadau i law, felly, peidiwch ag oedi cyn gwneud cais am y swydd hon.

# Canllawiau ynglŷn â sut i ymgeisio

Bydd y ffurflen gais y byddwch yn ei llenwi a'i chyflwyno yn rhan o'r broses ddethol. Gwnewch yn siŵr felly eich bod yn cymryd eich amser ac yn cyflwyno eich dogfennau gan ddefnyddio teip du neu inc.

- ❑ Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a'r Pecyn Recriwtio hwn yn ofalus cyn dechrau llenwi'r Ffurflen Gais. Mae'r holl ddogfennau recriwtio, gan gynnwys y Ffurflen gais, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- ❑ Rhaid i ni gael y ffurflenni ymgeisio cyn y dyddiad cau fel y nodir yn yr hysbyseb a'r Pecyn Recriwtio.
- ❑ Mae'r Ffurflen Gais ar gael fel dogfen Microsoft Word: rydym yn eich annog i gwblhau'r fersiwn Word a'i e-bostio ynghyd â'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb i recriwtio@ombwdsmon.cymru
- ❑ Dylai ymgeiswyr sy'n anfon eu ceisiadau drwy ebost nodi mai serfwr yr Ombwdsmon sy'n diffinio pryd y caiff cais ei dderbyn. Dylai ymgeiswyr sy'n dewis cyflwyno eu Ffurflenni Cais a'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb wneud hynny drwy eu hanfon at y cyfeiriad post ar y dudalen nesaf. Cofiwch, nid yw post dosbarth cyntaf yn gwarantu post y diwrnod nesaf. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais lle bydd gofyn i ni dalu diffyg o ran postio.
- ❑ Rhaid i chi gwblhau pob rhan o'r ffurflen. Gall methu â gwneud hynny arwain at wrthod eich cais.
- ❑ Cwblhau'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Ni fydd y manylion a roddwch ar y ffurflen hon yn ffurfio rhan o'r broses ddethol.
- ❑ Rydym yn argymell eich bod yn gwneud copi o'ch ffurflen orffenedig a'r swydd ddisgrifiad ac yn ei gadw ar gyfer eich cofnodion.

# Cyflwyno eich cais

Ein dull orau o dderbyn dogfennau ymgeisio yw yn electronig. Anfonwch eich cais i'r cyfeiriad ebost canlynol cyn y dyddiad cau: recriwtio@ombwdsmon.cymru

Fel arall, gallwch argraffu eich Ffurflen Ymgeisio a'i hanfon at:

Recriwtio
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Sicrhewch eich bod wedi atodi'r canlynol:

- Ffurflen Gais wedi'i chwblhau
- Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Os oes gennych gwestiynau nad yw wedi'u hateb yn y pecyn hwn, cysylltwch â Recriwtio ar 01656 644214 neu e-bostiwch recriwtio@ombwdsmon.cymru

# Y Broses Recriwtio a Dethol

# Y Broses Recriwtio a Dethol

Bydd pob cais cyflawn yn cael eu hystyried gan y panel dethol. Bydd y Panel yn ystyried yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol a ddangosoch yn eich cais. Felly, mae'r wybodaeth a ddarparwch yn hanfodol ar gyfer penderfynu a fyddwch yn cael eich rhoi ar y rhestr fer er mwyn ystyried eich cais ymhellach. Sicrhewch eich bod yn darparu enghreifftiau, gan na fydd dweud "Mae gen i brofiad o....." a pheidio â darparu enghraifft o'r hyn rydych chi wedi'i wneud, yn rhoi digon o dystiolaeth i ni eich sgorio ar yr elfen benodol honno.

**Gofynion arbennig**

Fel cyflogwr sydd wedi ymrwymo i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, bydd pob ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ac sy'n anabl yn cael eu rhoi ar y rhestr fer. Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig oherwydd, er enghraifft, anabledd, cysylltwch â Recriwtio a fydd yn falch o'ch cynorthwyo. Gallwch wneud hynny drwy ffonio **01656 644214** neu ebostio recriwtio@ombwdsmon.cymru.

**Ieithoedd i'w defnyddio wrth asesu a chyfweld**

Gellir cynnal asesiadau a chyfweliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn ond yn cynnal asesiadau neu gyfweliad yn Gymraeg os ydych wedi datgan eich bod yn siaradwr Cymraeg.

**Penodi**

Mae unrhyw gynnig yn amodol ar yr ymgeisydd llwyddiannus yn profi ei fod yn gymwys i weithio yn y DU; yn cwblhau holiadur iechyd; a darparu gwybodaeth am unrhyw euogfarnau troseddol sydd heb eu disbyddu.

Bydd angen i OGCC hefyd dderbyn tystlythyrau addas ar gyfer eich penodiad i'r rôl. Dim ond ar ôl i gynnig cyflogaeth gael ei wneud a'i dderbyn y gwneir cais am eirdaon.

## Dyddiad cau: 1 Mehefin 2026

**Rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag hon yn gynnar os daw digon o geisiadau i law.**

# Diogelu Data

# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae ein hysbysiad preifatrwydd yn egluro'r ffordd y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol (neu wybodaeth bersonol yr unigolyn y byddwch yn gweithredu ar ei ran). Mae'r hysbysiad preifatrwydd yn ystyried gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data 2018.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales